

# CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT

## Dyffryn Ardudwy & Talybont Community Council

Clerc/Clerk: Mrs Annwen Hughes

annwen@btconnect.com

(Ffon: 01766 780971)

20.02.16

Plas Uchaf,  
TALSARNAU,  
Gwynedd.  
LL47 6YA

Annwyl Gynghorydd,

Ysgrifennaf i ofyn am eich presenoldeb mewn cyfarfod o'r Cyngor **nos Fawrth, Mawrth 1af 2016** yn Neuadd Gymunedol, Dyffryn Ardudwy am **7.30 o'r gloch**. Bwriedir trafod yr Agenda a ganlyn. Bydd posib i chwi ddod i gael golwg ar y ceisiadau cynllunio sydd wedi cael eu derbyn cyn dechrau y cyfarfod o **7.00 o'r gloch** ymlaen.

Yn gywir,

*Annwen Hughes*

Clerc

### **AGENDA**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.
3. Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 2il 2016
4. Materion yn codi o'r Cofnodion.
5. Datgan Diddordeb.
6. Materion Cyngor Sir.
7. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhester amgaedig).
  
8. **MATERION YN CODI**
  - a) Cynllun Busnes
  - b) Camerau CCTV
  - c) Neuadd Bentref
  - d) Gwefan y Cyngor
  - e) Eglwys Llanenddwyn
  - f) Ethol Cynghorydd
  - g) Agor Tenderau Torri Gwair
  - h) Cyfarfod Un Llais Cymru - Dolgellau 24.2.16
  
9. Gohebiaeth (gweler rhester amgaedig).
10. Adroddiad y Trysorydd - ceisiadau am gymorth ariannol
11. Unrhyw Fater Arall.

### **Ceisiadau Cynllunio wedi dod i law (hyd at 20.02.16)**

Dymchwel rhan o'r neuadd bresennol ac adeiladu 1 ty fforddiadwy a gosod tanc olew 1000 litr - The Old Womens Institute Hall, Talybont (NP5/58/572)

Estyniad arfaethedig o'r parc carafanau presennol i leoli 23 carafan deithiol, creu lloriau caled, sylfeini ar gyfer cysgodlenni a manau parcio, adeiladu unedau cawodydd/toiledau a phwer solar cyfun ar gyfer pob carafan, darparu storfa biniau, creu mynediad a llwybrau cylchrediad mewnol ac adeiladu waliau cerrig sychio ar ffiniau gogledd ddwyreiniol a gogledd orllewinol y safle, creu man chwarae a gwaith helaeth i drin y dirwedd a phlannu coed - Parc Carafanau Sea Nymph, Islawffordd, Talybont (NP5/58/439D)

### **Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad wedi ei dderbyn arnynt(hyd at 20.02.16)**

Defnydd o'r tir wedi'i ymylu mewn coch a'i farcio "1" ar y cynllun i storio carafanau symudol dros y gaeaf rhwng 1af Tachwedd a 28ain Chwefror ym mhob blwyddyn, y rhifau nid i fod yn fwy na 13 mewn cyfanswm ar unrhyw adeg a'r rhifau i'w storio ar y tir wedi'i ymylu mewn coch a'i farcio "2" ar y cynllun ddim i fod yn fwy na 2 mewn cyfanswm ar unrhyw adeg - Tir yn Dalar, Talybont (NP5/58/LU285A) - caniatâu

Defnydd o'r tir o fewn yr ardal wedi'i ymylu mewn gwyrdd ar y cynllun i osod pedair carafan statig, y carafanau i'w meddiannu rhwng 1af Mawrth a 31ain Hydref ym mhob blwyddyn. Defnydd o'r sialle wedi'i leoli yn y lleoliad a ddangosir mewn glas ar y cynllun at bwrpas llety gwyliau rhwng 1af Mawrth a 31ain Hydref ym mhob blwyddyn - Tir yn Dalar, Talybont (NP5/58/LU285B) - caniatâu

### **Gohebiaeth wedi dod i law (hyd at 20.02.16)**

Cyngor Gwynedd - ateb ynglyn a materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor.  
Parch Beth Bailey - llythyr ynglyn ag eglwys Llanenddwyn

### **Anfonebau angen eu talu (hyd at 20.02.16)**

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + costau  
Mr. M. J. Kerr - £380.00 - agor bedd y diweddar Ms Julie Denise Smedley

### **Ceisiadau am gymorth ariannol (hyd at 20.02.16)**

Ddim wedi dod i law

**YN AMGAEDIG MAE COPI O LYTHYR GAN Y PARCH BETH BAILEY YNGLYN AG EGLWYS LLANENDDWYN**